Casglu Tystiolaeth

Rhagymadrodd

Bydd yn rhaid cefnogi eich Cynllun Cynefin gyda thystiolaeth gymesur. Defnyddir hyn i esbonio'r rhesymau tu ôl i gynnwys eich cynllun. Dylai fod dwy elfen i'ch sail tystiolaeth:

- **Safbwyntiau'r Gymuned:** Tystiolaeth o safbwynt y gymuned leol ac eraill sydd â rhandal yn nyfodol yr ardal (er enghraifft, busnesau lleol a chyflogwyr).
- **Ymchwil / darganfod ffeithiau:** Ffeithiau cefndirol sy'n hysbysu amcanion y cynllun.

Bydd yn bwysig i gofnodi'r broses o gasglu'r dystiolaeth (er enghraifft, rhestr o ddigwyddiadau ymgynghori neu gyfarfodydd, gyda manylion ynghylch pryd y'u cynhaliwyd, pwy fynychodd ac ati) yn ogystal â rhestr o'r dystiolaeth a gasglwyd a chyflwyno'r canlyniadau. *Gweler y Pecyn Cymorth Ymrwymiad Cymunedol am fwy o fanylion.*

Os mai bwriad eich cymuned yw bod eich Cynllun Cynefin yn dod yn Ganllaw Cynllunio Atodol bydd yn rhaid i chi drafod casglu tystiolaeth gyda'ch awdurdod lleol. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich tystiolaeth yn cyflawni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer mabwysiadu gan yr awdurdod lleol.

Beth yw diben y dystiolaeth?

Mae'r dystiolaeth yn hysbysu eich cynllun ac yn tanategu ei amcanion. I ddefnyddio un enghraifft yn unig, os mai un o'ch amcanion yw i '*ddiogelu cyfleusterau cymunedol presennol*' yna bydd arnoch angen tystiolaeth i helpu:

- **Gosod y sefyllfa:** Er enghraifft, trwy gatalogio sefyllfa bresennol y cyfleusterau cymunedol, gan osod allan yr hyn sydd yno nawr, ac, i raddau, pa mor aml, ai peidio, y'u defnyddir. Bydd safbwyntiau'r gymuned a'r awdurdod cynllunio ar y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau yn hwnnw yn hysbysu hyn hefyd.
- **Nodi'r hyn sy'n rhaid i chi ei gynnwys yn y cynllun:** Bydd y cam cyntaf uchod yn gosod allan yr hyn sy'n rhaid i chi ei drafod a'r hyn rydych chi'n ceisio ei wneud. Amlygu'r hyn mae eich cymuned am ddiogleu, a nodi bylchau yn y ddarpariaeth mae'r gymuned wedi eu nodi.
- **Nodi pwy sy'n mynd i helpu:** Bydd amrediad o ddarparwyr gwasanaethau'n gallu cynorthwyo gyda chyflawni amcanion eich cynllun, yn cynnwys y diwydiant datblygu, asiantaethau statudol (er enghraifft, Chwaraeon Cymru) a chyrff eraill sydd â thystiolaeth ddefnyddiol (er enghraifft, Un Llais Cymru)ac efallai cyrff sy'n rhoi grantiau hyd yn oed.

Sut

Cam 1: Adolygu'r dystiolaeth sydd gennych eisoes

Cyn casglu tystiolaeth newydd mae'n werth archwilio'r dystiolaeth leol sydd gennych eisoes, er enghraifft, deunydd a baratowyd fel rhan o Ddatganiad Dylunio neu broses Cynllun Cymunedol, neu wybodaeth a gasglwyd gan grwpiau lleol megis cymdeithasau hanes neu grwpiau bywyd gwyllt.

Yn ogystal, mae'n fwy na thebyg bydd gan eich awdurdod lleol lawer o dystiolaeth sy'n berthnasol i'ch ardal. Dylai fod llawer o hyn ar gael yn rhwydd ar eu gwefannau fel sail tystiolaeth i'r Cynllun Datblgyu Lleol.

Gellir dod o hyd i ddata'r cyfrifiad a phob math o ddata amgylcheddol mewn ffynonellau agored ar-lein.

Cam 2: Nodi Bylchau a Blaenoriaethau

Yn dilyn eich adolygiad, dylai fod gennych well syniad o'r bylchau allweddol yn eich tystiolaeth. Er enghraifft, os oes gan eich Grŵp Llywio ddiddordeb mewn cynnwys pynciau penodol yn eich Cynllun Cynefin efallai bydd yn rhaid cael tystiolaeth ychwanegol ar y pynciau.

Unwaith y byddwch wedi creu rhestr o adrannau ble mae'n rhaid cael mwy o dystiolaeth, dylid blaenoriaethu'r rhain, e.e. efallai bod rhai'n hanfodol, rhai dan gyfyngiad amser (gellir ond cynnal arolygon ecolegol rhwng Ebrill a Hydref). Yn ogystal, gellir casglu rhywfaint o dystiolaeth gan bobl leol a bydd angen mewnbwn mwy arbenigol neu gyngor pan yn casglu tystiolaeth.

Cam 3: Casglu a Chrynhoi Tystiolaeth

Fel arfer mae dwy fath o dystiolaeth i'w casglu:

- **Safbwyntiau, barn a dyheadau**: Mae'r rhain yn weddol hawl i'w casglu. Gallwch ddefnyddio arolwg, cynnal digwyddiad agored, anfon cylchlythyr ac yn y blaen. *Gweler y Pecyn Cymorth Ymrwymiad Cymunedol.*
- **Ffeithiau a Ffigyrau:** Mae'r rhain yn llawer mwy heriol bob tro ac yn gofyn am ofal. Gall eich gwaith i sefydlu barn leol awgrymu bod angen cael mwy o fannau agored ond efallai na ddefnyddir y rhai presennol yn ddigon aml. Gall awgrymu bod problemau diogelwch ar gyffordd stryd ond a oes esiamplau o broblemau wedi eu cofnodi? Mae rhai o'r pecynnau cymorth eraill yn darparu canllawiau ar ffyrdd cadarn o gasglu tystiolaeth ar faterion o'r fath, ond dyma pan fo'n hanfodol cael cymorth gan eich awdurdod lleol ar yr hyn i'w ddarganfod a sut.

Ac yn olaf, cofiwch bod angen tystiolaeth ar bob cynnig, syniad neu brosiect yn eich Cynllun Cynefin er mwyn ei gefnogi!

Gwybodaeth ychwanegol

Eich Awdurdod Cynllunio Lleol ddylai fod eich pwynt cyswllt cyntaf yn y broses casglu tystiolaeth.

Mae Planning Aid England wedi casglu cyngor at ei gilydd ar sut i gasglu a defnyddio tystiolaeth mewn Cynllunio Cymdogaeth:

http://www.ourneighbourhoodplanning.org.uk/storage/resources/documents/How_to_gather_and_use_evidence.pdf